

**Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Tref Porthmadog a gynhaliwyd
ar Nos Fawrth, 10fed o Fawrth 2020, 7:00yh yn Ystafell Glaslyn,
Y Ganolfan, Porthmadog.**

Presennol: Cyngorwyr: Gwilym Jones (Cadeirydd) , Aled Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Jason Humphreys, Nia Jeffreys, Ian Jones, Dafydd Lake, Llywelyn Rhys, Gareth Williams, Richard Williams.
Glenda Burke (Clerc).

Ymddiheuriadau: Cyngorwyr : Simon Brooks, Melfyn Edwards, Bethan O. Rees Jones.

243. Adroddiad y Cadeirydd

Croesawyd pawb i'r cyfarfod . Cyfeiriodd am y pryder oedd yn cynyddu am y firws corona . Roedd wedi siarad efo rhai aelodau a holi os oes yna gyfarwyddiadau corfforaethol i gynghorau lleol. Nid oes dim yn bodoli ar hyn o bryd ond fod yna ddigon o wybodaeth ar gael ar sut i leihau'r risg. Er gwybodaeth adroddwyd fod yna uned wedi ei sefydlu yn Ysbyty Alltwen ond fod rhaid i gleifion gael ei chyfeirio atynt trwy'r meddyg neu alw 111.

Ar y 19eg o Chwefror roedd wedi mynychu cyfarfod efo Crime Stoppers. Maent yn cael blitz yn nhrefi Abermaw, Blaenau , Porthmadog a Pwllheli ac yn cyd weithio efo'r heddlu .Atgoffwyd pawb fod pawb yn gallu cysylltu efo nhw am unrhyw drosedd a bod y galwadau yn gwbl gyfrinachol.

Roedd hefyd wedi mynychu cyfarfod yn y Ganolfan gyda Chyngor Iechyd Cymuned Gwynedd ynglŷn â'r gwasanaethau fasgwlaidd yn Ysbyty Glan Clwyd. Roedd yna aelodau o'r cyhoedd yno ac yn adrodd am eu profiadau oedd yn swnio'n eithaf pryderus. Roedd pawb yn gytûn y dylai dychwelyd y gwasanaeth yn ôl i Fangor. Nododd fod y mater gerbron gan y Cyng. Nia Jeffreys ymhellach ymlaen ar y rhaglen.

Bu mewn cyfarfod arall i lansio Wifi am ddim ar gyfer y stryd fawr ym Mhorthmadog.

Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd fydd yn ei ariannu a Menter Môn yn ei redeg. Mae yn cynnig bob maeth o gyfle i gasglu data i helpu busnesau bach y dref . Gall hefyd fod yn gyfle i ailgychwyn y Siambr Fasnach. Bydd y data ar gael i'r Cyngor Tref hefyd.

Braf oedd clywed fod y gwaith ar Dy Moelwyn am gychwyn ym mis Mai.

Mae gorsaf bŵer Trawsfynydd angen mewn forio transformers newydd unai trwy harbwr Porthmadog neu draeth y Greigddu. Yn ôl y son nid ydynt yn fawr iawn ond yn eithriadol o drwm.

Braf gorffen ar nodyn da sef fod yna 5 o fusnesau bach y dref ar y rhestr fer wahanol gystadlaethau. Pob lwc iddynt.

Mae cyfarfod wedi ei drefnu efo'r Urdd ar y 25ain o Fawrth i geision symud ymlaen efo ail sefydlu Clybiau Ieuencid yn y dref.

Roedd am longyfarch y Clerc oedd wedi bod ar y radio a'r newyddion yn helpu lansio ap Cymraeg i gefnogi pobl wedi eu heffeithio gan ganer y fron.

Cyrhaeddodd y Cyng. Llywelyn Rhys.

244. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod rheolaidd diwethaf (11eg o Chwefror 2020).

Penderfynwyd : derbyn y cofnodion fel y rhai cywir a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd yn unol â gofynion y gyfraith. Cynnig : Cyng. Selwyn Griffiths. Eilio : Cyng. Richard Williams.

245.Cyfle i'r Cyngorwyr ddatgan diddordeb ar y cyfarfod rheolaidd.

Cyng. Carol Hayes – mater gerbron - cais am gyfraniad Y Ganolfan.

Cyng. Alwyn Gruffydd – mater gerbron – cais am gyfraniad Neuadd Goffa Tremadog

Cyng. Ian Jones – cais cynllunio v).

Materion i'w dwyn gerbron :

246. Cais am gyfraniad Y Ganolfan - mater wedi ei ohirio mis diwethaf.

Gofynnodd y Cyng. Selwyn Griffiths am bleidlais gofrestredig.

Adroddodd ei fod o blaid rhoi'r un swm a 2018/2019 gan gyfeirio at y gwelliannau sydd wedi eu cyflawni gan nodi fod angen gwneud mwy. Mae defnydd mawr o'r adeilad yn lleol a'r Cyngor Tref angen cefnogi er mwyn gweld safon y lle yn codi. Roedd yn cynnig cyfraniad o £15,000.

Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Llywelyn Rhys.

Roedd y Cyng. Jason Humphreys am gynnig gwelliant. Roedd yn cefnogi sylwadau'r Cyng.

Selwyn Griffiths ac yn croesawu'r gwelliannau i'r adeilad. Cyfeiriodd nad oes datrysiad wedi ei dderbyn i bryder y Cyngor Tref fod y Pwyllgor Rheoli yn torri rheolau o ran y gofrestr elusennol.

Roedd yr ymateb oedd wedi ei dderbyn yn osgoi ateb beth roedd y Cyngor Tref wedi ei godi.

Nododd mai mater i'r Ganolfan ydi wynebu eu cyfrifoldebau . Roedd yn cynnig for y Cyngor

Tref yn cael barn Un Llais Cymru a'r Archwiliwr Mewnol i ofyn a oes gan y Cyngor Tref hawl i roi arian i elusen sydd ddim yn cydymffurfio drwy gofrestru pawb o'r Pwyllgor Rheoli ar y

Gofrestr Elusennol. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Williams.

Adroddodd y Cyng. Llywelyn Rhys ei fod wedi astudio gofynion y Comisiynydd Elusennol a chyfansoddiad y Ganolfan ac yn ei ddehongli nad oes rhaid i bwyllgor rheoli eu cofrestru fel ymddiriedolwyr.

Nododd y Cyng. Alwyn Gruffydd fod pobl y dref yn meddwl y byd o'r Ganolfan ac yn cynnig rhoi £7,500 gan gadw'r gweddill wrth gefn hyd nes y ceir datrysiad. Ni eiliwyd y cynnig.

Aethpwyd i bleidlais gan gychwyn gyda'r gwelliant.

Cynnig Cyng. Jason Humphreys , eiliwyd gan y Cyng. Richard Williams :

Cyng. Richard Williams - o blaid.

Cyng. Ian Jones – o blaid.

Cyng. Gareth Williams – yn erbyn.

Cyng. Llywelyn Rhys – yn erbyn.

Cyng. Aled Griffith – o baid.

Cyng. Alwyn Gruffydd – yn erbyn.

Cyng. Jason Humphreys – o blaid.

Cyng. Dafydd Lake – o blaid.

Cyng. Nia Jeffreys – yn erbyn.

Cyng. Selwyn Griffiths – yn erbyn.

Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd) - yn erbyn.

5 o blaid , 6 yn erbyn.

Cynnig Cyng. Selwyn Griffith , eiliwyd gan y Cyng. Llywelyn Rhys:

Cyng. Richard Williams - yn erbyn.

Cyng. Ian Jones – yn erbyn.

Cyng. Gareth Williams – o blaid.

Cyng. Llywelyn Rhys – o blaid.

Cyng. Aled Griffith – yn erbyn

Cyng. Alwyn Gruffydd – yn erbyn

Cyng. Jason Humphreys – yn erbyn

Cyng. Dafydd Lake – yn erbyn

Cyng. Nia Jeffreys – o blaid

Cyng. Selwyn Griffiths – o blaid

Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd) – o blaid

5 o blaid , 6 yn erbyn.

Penderfynwyd : gwrthod y ddau gynnig.

247. Cais am gyfraniad Neuadd Goffa Tremadog – wedi ei ohirio mis diwethaf.

Penderfynwyd: yn unfrydol cyfrannu £3,000 yn ôl cynnig y Cyng. Carol Hayes, eiliwyd gan y Cyng. Jason Humphreys.

248. Cyng. Gareth Williams - cynnig ynglŷn â phroblemau trafndiaeth yng Nghlog y Berth.

Roedd y Cyng. Williams yn bryderus iawn fod gweithwyr ar yr hen Gapel Garth yn parcio ar y palmant ar waelod Stryd Dora ac yn rhwystro cerbydau bibiau fynd i fynd. Pryderai beth fyddai yn digwydd mewn argyfwng pe byddai angen ambiwlans neu frigâd dan yna. Roedd yn cynnig ysgrifennu at adran rheoli traffig Cyngor Gwynedd gan ofyn iddynt ystyried gosod llinellau melyn yna i wahardd parcio ar y ddwy ochr. Eiliwyd y cynnig gan y yng. Selwyn Griffiths. Adroddwyd fod mater parcio wedi bod yn rhan o'r cynlluniau ac y byddai lle o dan y fflatiau efo mynediad trwy'r Heol Banc.

Penderfynwyd: ysgrifennu yn ôl y cynnig.

249. Cyng. Richard Williams - cynnig cysylltu efo Cyngor Gwynedd i ddatgan diddordeb mewn gwneud cais am grant Visit Wales. (Manylion ynghlwm).

Nododd y Cadeirydd na grantiau i gwmnïau sydd ar gael.

Roedd y Cyng. Williams yn cynnig cysylltu efo Sioned Williams, Pennaeth Economi, Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt a oes ganddynt swyddog grantiau yn gwneud ceisiadau. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Jason Humphreys nododd nad oes yna swyddog datblygu yn y dref.

Penderfynwyd: ysgrifennu yn ôl y cynnig.

250. Cyng. Carol Hayes - cynnig ysgrifennu at Michael Strain i ofyn am eglurhad o'r canlynol (wedi ymddangos yn Llanw Llyn). "Bydd y pwyllgorau apêl yn seiliedig ar y Cynghorau Cymuned a Thref. Bydd y rheini yn gyfrifol am drefnu nifer o weithgareddau cymunedol i gyrraedd nod ariannol o £400,000".

Nododd y Cyng. Jason Humphreys fod yr adroddiad wedi gadael un gair allan sef : "seiliedig ar *ardaloedd* Cynghorau Cymuned a Thref".

Roedd y Cyng. Selwyn Griffiths yn cytuno efo hyn gan ychwanegu fod pwyllgor lleol wedi ei sefydlu yn yr ardal a bod y Cyngor tref wedi rhoi £5,000 iddynt.

Penderfynwyd: nid oedd eilydd i'r cynnig.

251. Cyng. Nia Jeffreys - cynnig fod Cyngor Tref Porthmadog yn ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn mynegi ein pryderon dwys am y gwasanaeth fasciwlwr yn Ysbyty Glan Clwyd a gofyn am ail sefydlu'r gwasanaeth yn Ysbyty Gwynedd ar frys.

Roedd y Cyng. Jeffreys yn falch iawn fod y cyfarfod yma wedi ei drefnu ar gais y Cyngor Tref ac wedi ei syfrdanu yn gwrando ar bobl o'r ardal yn rhannu eu profiadau gwael o'r gwasanaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Y consensws oedd bod angen ceisio cael y gwasanaeth yn ôl i Ysbyty Gwynedd.

Roedd yn cynnig y dylid ysgrifennu at y Prif Weinidog. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Gareth Williams. Derbyniwyd gwelliant y Cyng. Llywelyn Rhys i gopio Vaughan Gething , y Gweinidog Iechyd i mewn i'r llythyr.

Nododd y Cyng. Jason Humphreys y byddai'n ddiddorol gweld adroddiad gan y Bwrdd Iechyd ar hyn.

Penderfynwyd: ysgrifennu yn ôl y cynnig.

252. Cyng. Carol Hayes - cynnig fod Cyngor Tref Porthmadog yn cysylltu gyda "Chwarae Teg" i ofyn am fanylion am "Ymgyrch Placiau Porffor" gyda'r nod o osod plac yn y dref i goffau Mair Eifion (1846 – 1882) barddones o Borthmadog.

Eglurodd y Cyng. Hayes fod y cynllun yma trwy Chwarae Teg yn hybu cydraddoldeb rhwng dynion a merched. Mae Ymgyrch y Plac Porffor (sydd gyfystyr a'r placiau glas i ddynion) yn mynd ers 2007 ac yn cael ei ariannu gan y Cynulliad. Mae plac porffor wedi ei osod yn 2019 y,

Mryn Awelon, Criccieth i goffau Megan Lloyd George. Roedd y Cyng. Hayes wedi gwneud ychydig o ymchwil a dod ardraws bardd ifanc o Borthmadog sef Mair Eifion. Roedd wedi ei magu drws nesaf i siop Tom Parry yn Stryd Lombard. Darllenodd un pennill o gerdd ganddi. Roedd yn cynnig cysylltu efo Chwarae Teg i ofyn am fwy o fanylion. Diolchodd y Cyng. Nia Jeffreys i'r Cyng. Carol Hayes am godi'r mater gan eilio ei chynnig.

Nododd y Cyng. Selwyn Griffiths ei fod o blaid y cynllun yma a nododd fod y Cyng. Bethan O Rees Jones wed gwneud gwaith ar hyn yn y gorffennol. Cynigiodd y dylid gofyn i'r Cyng. Rees-Jones pa mor bell yr aeth efo hyn ac efallai edrych ar ail sefydlu criw bach i anrhydeddu pobl Porthmadog a'r ardal. Roedd y Cyng. Llywelyn Rhys yn cefnogi'r cynnig gan nodi ei fod yn amserol iawn mor agos i ddiwrnod rhyngwladol merched. Roedd pawb yn unfrydol o blaid y cynnig.

Penderfynwyd: holi am wybodaeth yn ôl y cynnig.

253. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

(Dyddiad cau Rhaglen mis Ebrill 2020 – 7fed o Ebrill 2020).

- Cyng. Bethan O Rees Jones – anrhydeddu pobl ardal Porthmadog

254. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth a pharhau i bwysu am ateb fel bo angen.

Gohebiaeth :

255. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – Gwasanaethau bws Ysbyty Alltwen (ymateb i llythyr rhaglen Ionawr , cof. 201).

Roedd y Cyng. Carol Hayes yn siomedig efo'r ymateb. Cynigiodd y Cyng. Alwyn Gruffydd ysgrifennu i ddiolch am y llythyr a gofyn ym mhle mae'r 'arferion arloesol wedi eu mabwysiadu' a nodir yn y llythyr. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Selwyn Griffiths.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

256. Swyddfa Arweilio Cymru – Datganiad i'r Wasg.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth gan nodi diolch i'r Clerc fod Cyngor Tref Porthmadog yn un o'r cynghorau sydd wedi cydymffurfio yn llwyr.

257. Cadw Cymru'n Daclus – Gwanwyn Glân Cymru.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

258. Un Llais Cymru – Aelodaeth 2020 – 2021.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth ac ymaelodi am 2020-2021 yn ôl cynnig y Cyng. Jason Humphreys , eiliwyd gan y Cyng. Selwyn Griffiths.

259. Panel Annibynnol Cymru – Adroddiad Blynyddol 2020/2021 (copi llawn ar y bwrdd).

Roedd y Cyng. Jason Humphreys yn cynnig ysgrifennu at y panel i ofyn iddynt gadarnhau a gwneud y canllawiau yn hollol glir ynglŷn â threthu'r lwfans a'r hawl i'w roi yn syth i gymdeithasau. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Richard Williams.

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl y cynnig.

Penderfynu fel a ganlyn am 2020/2021 :

Pob Cynghorydd i dderbyn y lwfans o £150 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oni bai eu bod yn nodi eu dymuniad i beidio ei dderbyn yn ysgrifenedig i'r Clerc. Y lwfans yn drethadwy oni dderbynnir cadarnhad gwahanol

Dim taliad o £500 i aelodau is bwyllgorau Cyllid ac Eiddo.

Cynnig : Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Carol Hayes.

Ni fydd Cyngor tref Porthmadog yn talu £500 i 5 aelod (uchafswm) i gydnabod cyfrifoldebau penodol.

Cynnig : Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Carol Hayes.

Bydd Cyngor Tref yn talu 45c y filltir o gostau teithio (hyd at 10,000 o filltiroedd), 25c y filltir (dros 10,000 o filltiroedd) i bob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy.

Cynnig : Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Gareth Williams.

Os bydd Cyngor Tref Porthmadog yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol byddent yn talu lwfansau fela ganlyn :

£28 y cyfnod o 24 awr ar gyfer prydau bwyd gan gynnwys brechwast pan na fydd wedi'i gynnwys, £200 Llundain dros nos, £95 rhywle arall, £30 aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos.

Cynnig : Cyng. Richard Williams, eiliwyd gan y Cyng. Selwyn Griffiths.

Bydd Cyngor Tref Porthmadog yn talu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau , lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:

Hyd at £55 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr. Hyd at £110 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr i nad yw'n fwy na 24 awr.

Cynnig : Cyng. Richard Williams, eiliwyd gan y Cyng. Llywelyn Rhys.

Mae'n rhaid i bob cyngor tref a chymuned ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol hyd at uchafswm o £403 y mis.

Mae Cyngor Tref Porthmadog yn darparu taliad Pennaeth Dinesig i'r cadeirydd hyd at uchafswm o £1,500. Mae'r swm presennol yn £1,200 a bydd yn cael ei adolygu yn y cyfarfod blyneddol.

Cynnig : Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Richard Williams.

Ni fydd Cyngor Tref Porthmadog yn darparu taliad Dirprwy Bennaeth i'r is-gadeirydd.

Cynnig : Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Llywelyn Rhys.

260. Sioned Williams, Pennaeth Economi, CG – Brexit , cyngor i drigolion a busnesau.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

261. Adran Tai ac Eiddo, CG - Newidiadau i bolisi gosod tai cyffredin Gwynedd

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

262. Materion Ariannol :

Biliau i'w talu :

Glenda Burke – cyflog Clerc mis Chwefror 2020	=	£599.00
Cyllid a Thollau EM – treth incwm ac yswiriant gwladol Chwefror 2020	=	£155.00
Yr Wylan – hysbyseb am gynghorydd ward dwyreiniol	=	£16.00
Ashley Hughes Cyf -papur llungopio - 5 bocs	=	£83.94
G L Jones Playground Ltd – gwaith ar offer Gae Chwarae Bodawen	=	£1,138.80
B2 Docucentric - costau llungopio hyd at 4.2.20 ac ymlaen i 30.4.20	=	£50.15
Un Llais Cymru – aelodaeth 2019/2020	=	£792.00
Glenda Burke - inc ar gyfer y printer Chwefor (£20.49)		
hanner rent llinell ffôn a gwe 26.2.2020 - 25.3.2020 (£32.75)	=	£53.24
Cyng.Simon Brooks – lwfans Cynghorydd 2019/2020	=	£120.00
Cyng.Alwyn Gruffydd – lwfans Cynghorydd 2019/2020	=	£120.00

Derbyniadau:

Llog Banc Chwefror 2020	=	£5.76
-------------------------	---	-------

Penderfynwyd : talu'r biliau a nodi'r derbyniadau yn ôl cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Lake .

263. Ceisiadau Cynllunio :

- i) **C20/0112/44/LL** - Newid defnydd siop llawr gwaelod presennol i swyddfeydd a defnyddio lloriau uwch fel tŷ aml-feddianaeth 3 ystafell wely.
11 Stryd Y Banc, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AA.
Penderfynwyd : cefnogi rhan o'r cais i newid defnydd y siop gwaelod i swyddfeydd. Gwrthwynebu y cais i ddefnyddio'r lloriau uchod fel tŷ aml-feddianaeth oherwydd pryder am y problemau parcio gyfagos. Cynigwyd gan y Cyng. Jason Humphreys, eiliwyd gan y Cyng. Richard Williams.
- ii) **C20/0077/44/LL** - Newid defnydd o delicatessan (A1) i tearoom (A3)
Y Bwtri, 78 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NW.
Penderfynwyd : Dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig y Cyng. Richard Williams, eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Lake.
- iii) **C20/0127/44/LL** - Cais ar gyfer codi estyniad unllawr, ports ac estynnu'r balcony presennol ynghyd a darparu ffenestri cromen a ffenestri to ynghyd a newidiadau eraill. Croglofft Ffordd Garth, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TW
Penderfynwyd : Dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Ian Jones.
- iv) **C20/0014/44/CR** - Amnewid arwydd presennol di-oleuedig gydag un wedi eu goleuo'n fewnol.
Spar Ltd, Spar Stores, 13 - 15 Sgwâr Y Farchnad, Tremadog, Gwynedd, LL49 9RB.
Penderfynwyd : gwrthwynebu ar y sail fod ardal sgwâr Tremadog yn ardal gadwraeth. Nid yw'r arwydd yma yn addas i'r ardal a byddai yn trefoli eiddo Tremadog. Cynigwyd gan y Cyng. Alwyn Gruffydd, eiliwyd gan y Cyng. Llywelyn Rhys.
- v) **C19/1073/44/LL** – Addasu llawr gwaelod meddygfa bresennol i 4 fflat hunangynhaliol. Cwrt Coffa, Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9HD.
Penderfynwyd : Dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig y Cyng. Carol Hayes, eiliwyd gan y Cyng. Llywelyn Rhys.